

Glanhau eich dŵr gwastraff

Dŵr gwastraff yw'r dŵr sy'n gadael eich tŷ chi pan fyddwch wedi cael bath neu dynnu dŵr y toiled. Mae'r dŵr hwn yn llifo i garthffos gyda dŵr glaw sy'n rhedeg oddi ar y ffyrdd ac i lawr y draeniau.



1 Sgrinio

Mae'r dŵr yn mynd trwy sgriniau sy'n tynnu pethau trwm fel clytiau, darnau plastig a phethau mawr eraill. Mae'r broses hon yn delio â llawer o'r stff sy'n cael ei gario yn y dŵr.

2 Tanciau Cychwynnol

Mae stff solet mân, sef 'slwtsh', yn suddo i waelod y tanc. Mae craffwr yn sgubo'r slwtsh i ffwrdd ac yna caiff ei dynnu oddi yno a'i drin.

Pŵer Pŵ

Mae slwtsh yn cael ei basio trwy dreuludd ar dymheredd o 35°C. Mae'n broses barhaus ac mae'n cymryd 15-20 diwrnod. Mae'r defnydd organig yn dadelfennu yn y treuludd i gynhyrchu nwy methan a charbon deuocsid. Caiff y nwy ei losgi i gynhyrchu trydan a dyna rydyn ni'n ei alw'n Pŵer Pŵ!


Awyru

Mae'r dŵr yn cael ei drin mewn un o ddau ddull, naill, ai:
Gwelyau hidlo: Caiff dŵr gwastraff ei chwistrellu ar wely o alos, graean neu glincer. Mae bacteria'n byw ar wyneb y defnyddiau hidlo hyn ac, wrth i'r dŵr basio trwodd, mae'r bacteria, y ffyngau ac organebau eraill sydd ar yr wyneb yn bwydo ar y defnydd organig yn y cartion, gan ei droi'n ddŵr, yn garbon deuocsid ac yn nitrogen. Wedyn, mae'r dŵr hwn yn symud i gam nesaf y driniaeth.
Slwtsh actifedig: Dyma ddull arall o drin y dŵr gwastraff (fel a welir yn y diagram). Caiff aer ei bwmpio o waelod y tanc sy'n cynnwys dŵr gwastraff a bacteria. Mae hyn yn rhoi ocsigen i'r bacteria. Yna, maen nhw'n atgynhyrchu ac yn treulio'r amhureddau sydd yn y cartion.

Rydyn ni'n gofalu am 36,000km o garthffosydd — o fyddai'n ddigon hir i fynd o Gymru i Awstralia ac yn ôl.



Rydyn ni'n gwneud digon o drydan o Bŵer Pŵ fel y gallai pob teulu'r Nghymru wyllo'r teledu'n ddi-dor am 6 diwrnod.



Mae gennym 836 o Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff sy'n glanhau dŵr o'r carthffosydd cyn ei ddychwelyd i'r gylchred ddŵr.

Triniaeth Derfynol

Mae'r broses waelodi derfynol yn debyg i'r gwaelodi cychwynnol ond erbyn hyn mae'r dŵr yn ddigon glân i gael ei arllwys yn ôl i afonydd a'r môr. Ar rai safleoedd, rydyn ni'n defnyddio triniaeth uwchfioled fel bod safon yr elfiant hyd yn oed yn uwch.

Trin Slwtsh

Mae'r slwtsh sydd ar ôl yn dilyn y broses lanhau yn cael ei gasglu a'i drin ac weithiau mae ffermyr yn ei ddefnyddio fel gwrtaith. Mae'r gweddill yn cael ei dalu i safleoedd tirlenwi.